Arloesi

GWOBRAU ARLOESEDD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyfeiswyr ifanc Cymru yn cael cymorth patent cyfreithiol am ddim ar gyfer cynnyrch newydd arloesol

Mae disgyblion ifanc arloesol o Gymru sy'n dylunio ac yn creu cynnyrch newydd cyffrous yn cael cynnig cyfle i gael patent swyddogol am ddim ar eu dyfeisiadau; mewn proses sydd fel arfer yn cymryd blynyddoedd ac yn costio miloedd o bunnoedd.

Mae'r Gwobrau Arloesedd, sef menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff dyfarnu CBAC, yn annog pobl ifanc sy'n astudio TGAU, Safon Uwch neu mewn colegau addysg bellach i ddefnyddio eu sgiliau a chreu cynnyrch newydd lle mae bylchau yn y farchnad defnyddwyr.

Yn y categori Eiddo Deallusol, mae nifer o ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael cyfle i gyflwyno'u dyfeisiad ar gyfer y broses patent ac i weithio gydag Abel + Imray, sef cwmni o gyfreithwyr patent a nod masnach arbenigol. Mae'r cwmni'n arbenigo ym mhob agwedd ar nodau masnach, patentau, a chyfraith dylunio yn y Deyrnas Unedig, Ewrop a ledled y byd, ac mae ganddo swyddfa yng Nghaerdydd gyda chyfreithiwr patent dwyieithog.

Hawl Eiddo Deallusol cofrestredig yw patent, sy'n cael ei roi gan lywodraeth ar ddyfeisiad. Mae'n caniatáu i ddeiliad y patent atal rhywun arall rhag gwneud, gwerthu, cynnig ar werth, defnyddio, mewnforio a/neu gadw'r dyfeisiad yn y diriogaeth maen nhw'n dal y patent ynddi.

Mae'r broses patent, o ffeilio cais am batent i gael patent wedi'i ganiatáu, yn gallu cymryd blynyddoedd, ac mae'r ffioedd am y gwasanaethau cyfreithiol yn dechrau

o tua £5,000 hyd at ddegau o filoedd o bunnoedd i gael y patent wedi'i ganiatáu.

Enillydd mwyaf diweddar y wobr Eiddo Deallusol oedd disgybl o Ysgol y Preseli yn Sir Benfro yn 2019, gyda dyluniad ar gyfer mecanwaith cau meddal ar gyfer gatiau yn yr awyr agored. Roedd dyluniad y disgybl yn addasu mecanwaith sy'n cael ei ddefnyddio fel arfer ar gyfer cypyrddau ceginau ac yn ei ddefnyddio gyda gatiau mawr yn yr awyr agored mewn ardaloedd gwledig i stopio gatiau rhag cau'n glep tu ôl i dda byw a cherbydau ffermio.

Gwnaeth Abel + Imray neilltuo twrnai i achos y myfyriwr a llwyddwyd i gyhoeddi'r patent o fewn pum mis. Heb gymorth a chefnogaeth gyfreithiol arbenigol, mae pobl yn ei chael hi'n anodd cael patent, a gall gymryd blynyddoedd lawer.

Wrth siarad am ei gwaith diweddar gyda'r Gwobrau Arloesedd, meddai Peri Jones, Cyfreithiwr Patent Ewropeaidd yn Abel + Imray LLP: "Mae annog gyrfaoedd ac arloesedd ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg yn rhan o'n diwylliant yn Abel + Imray, ac mae ein cwmni wedi bod yn ymwneud â'r Gwobrau Arloesedd ers blynyddoedd. Roedd yn brofiad gwych gweithio gyda'r disgybl i ddeall y dyfeisiad a helpu i ysgrifennu a ffeilio cais am batent ar ei gyfer, gan mai cyfreithiwr patent dan hyfforddiant oeddwn i ar y pryd. Bonws ychwanegol oedd fy mod i a'r disgybl yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac roedden ni'n gallu cynnal llawer o'n sgyrsiau yn Gymraeg."

"Mae'r ddyfais cau meddal awyr agored yn enghraifft dda iawn o ble mae disgybl wedi edrych ar broblem bywyd go iawn a dod o hyd i ateb. Mae hyn yn ddangosydd gwych ar gyfer cael amddiffyniad patent, gan fod angen i ddyfais fod yn newydd ac yn ddyfeisgar, ymhlith gofynion eraill."

"Yn gyffredinol, gall gymryd blynyddoedd i geisiadau am batent symud ymlaen i'r cam 'patent wedi'i ganiatáu'. Fodd bynnag, yn achos y gwobrau yma, rydyn ni'n ceisio dilyn llwybr carlam ar gyfer y broses gwneud cais lle bo modd, fel bod y disgybl, gobeithio, yn cael gweld rhywfaint o waith papur gan y Swyddfa Eiddo Deallusol (UK IPO) cyn iddyn nhw symud ymlaen i brifysgol neu brentisiaeth. Gwnaethom gyfarfod gyda'r myfyriwr a chwblhau'r cais am batent. Mae'n bleser gen i nodi y dyfarnwyd patent ar sail y cais."

Mae'r Gwobrau Arloesedd yn helpu i feithrin diwylliant o arloesedd yng Nghymru sy'n hanfodol ar gyfer creu swyddi a thwf i economi Cymru, yn ogystal â chyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae angen i bobl, busnesau, sefydliadau academaidd, ysbytai, ysgolion, y sector cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ei hun, i gyd fod yn fwy arloesol er mwyn ffynnu mewn byd cystadleuol, ac mae'r Gwobrau Arloesedd yn rhan o'r ymgyrch honno.

Busnes | Business Cymru | Wales

I gael gwybod mwy am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/cy

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47236
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg